

## Cofion a Chyfarchion

- Cofiw'n yn ein gweddiâu heddiw am Kitty Davies (Llansannan) sy'n bur wael yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd. Diolchwn amdani a gweddiwn ei bod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu. Cofiw'n am ei theulu hefyd a gofynnwn Iddo gysgodi drostynt hwythau. Yn parhau i gael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd hefyd y mae Gwenfyl Williams (Tanyfron) a Morfudd Williams (Henllan). Rydym yn cofio amdanynt hwythau ac yn eu cyflwyno yn dyner i'r Arglwydd yn ein gweddiâu. Mae'n dda clywed fod Gwenfair Davies (Peniel) wedi cael dod adref yn dilyn ei llawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd yr wythnos ddiwethaf. Anfonwn ein cofion ati hithau gan weddio y bydd yn cryfhau ac yn adnabod daioni Duw yn ei hamgylchynu dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf hyn.
- Cawsom gyfle pan gynhaliwyd y Gymdeithasfa yn y Gogledd ddechrau mis Ebrill i longyfarch a chydabod cyfraniad hynod werthfawr pump o flaenoriaid yr Ofalaeth hon – cyfanswm o 230 o flynyddoedd o wasanaeth rhyngddynt! Hyfryd oedd cael bod yn bresennol yn yr oedfa yng Nghapel Rehoboth, Prestatyn nos Sadwrn diwethaf pryd y bu i Henaduriaeth Dyffryn Clwyd hefyd gydnabod eu gwasanaeth ffyddlon a diflino i'r eglwysi. Diolchwn ninnau amdanoch a dymunwn fendith Duw arnoch.

## Cyfarfodydd Cyhoeddus y Gymanfa Gyffredinol

Cynhelir Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteriaid Cymru yn Eglwys Unedig Seilo, Arvon Ave, Llandudno LL30 2DY **yr wythnos hon**. Mae croeso i unrhyw un ymuno yn y cyfarfodydd cyhoeddus canlynol:

- **Nos Lun (11eg) am 7.30yh:** Gwasanaeth Cymun a Choffâd gyda'r Parch. Marcus Robinson yn pregethu.
- **Bore Mawrth (12fed) am 11.45yb:** Y Ddarlith Davies gyda'r Parch. Neil Kirkham yn darlithio yn Saesneg ar y testun "*Leading in Times of Change*".
- **Nos Fawrth (12fed) am 7.30yh:** Araith Ymadawol y Llywydd, y Parch. Ddr Elwyn Richards, a throsglwyddo'r Llywyddiaeth i'r Athro J. Gwynfor Jones.
- **Bore Mercher (13eg) am 11.45yb:** Darlith y Gymdeithas Hanes gyda Dr Andras Iago yn darlithio ar y testun "Thomas Jones o Ddinbych (1756-1820) a'r Meddwl Methodistiaid".

## I ddod

- **TAITH GERDDED HAMDDENOL** – nos Fercher, Gorffennaf 27ain. Cyfarfod ger Capel Peniel am 6.30.
- **OEDFA GOLLWNG ANEURIN O'I DDYLETSWYDDAU FEL GWEINIDOG YM MRO ALED** nos Sul, Medi 11eg am 6.00.
- **CYFARFOD ORDEINIO A SEFYDLU DR RHODRI GLYN YN WEINIDOG AR EGLWYSI BRO ALED** prynhawn dydd Sadwrn, Medi 17eg am 2.00.



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 10<sup>fed</sup> Gorffennaf 2016

Darlleniad y Dydd

Malachi 4:1-3

(BCND tud.869 / BCN tud.793)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Bore da! Mae'n fore dydd lau arna i yn sgwennu'r cyfarchion yma – drannoeth y Gêm Fawr! Mae gen i deimladau cymysg, rhyw gymysgedd o falchder a siom yn nhîm Cymru a rhyw atgasedd ac edmygedd o Ronaldo! Fe gododd fel eryr i benio'r gôl a seliodd ymadawiad tîm Cymru – ac i'r Portiwgeaid, fe fydd y gôl honno yr un mor glodfawr â gôl Ashley Williams i Gymru yn erbyn gwlad Belg. Do, fe gawsom atgofion, fe gawsom ni dwrnament gwych a mwynhad fel cenedl. Llongyfarchiadau iddynt! Diolch i'r tîm hefyd am lwyddo i ddod â'r genedl yn un, am gyfnod byr o leiaf yng nghanol dryswch y chwalfa wleidyddol yr ydym ynnddo ar hyn o bryd.

Dwi'n gwybod bod yna bethau pwysicach na phêl-droed! Ond maddeuwch i mi ddweud hyn heddiw! Un peth sydd wedi fy nharo i yng nghanol yr holl gyffro a'r canu a'r canmol ydi ein bod ni, fel Cymry, o'r diwedd wedi gallu ysgrifennu ein stori ein hunain ar lwyfan y byd. Dywedodd un o'r gohebwy'r rhywbeth tebyg i hyn: 'Ar ddechrau'r twrnament, roeddwn yn gorfod esbonio i bobl ble'r roedd Cymru – maen nhw'n gwybod bellach!' Mae hon wedi bod yn bennod o'n hanes ni fel cenedl na chafodd neb arall ran yn ei hysgrifennu. Ac mae hynny'n anghyffredin iawn yn ein profiad ni. Cysylltwyd pob agwedd o'n bywyd fel pobl ar hyd y canrifoedd hefo hanes Lloegr – ein hanes ni mewn perthynas â'i hanes mawreddog hi. Ond, yn achos y bennod hon am dîm pêl-droed distadl y Cymry, rydym wedi ysgrifennu pennod o hanes na all neb arall hawlio yr un rhan ohoni. Ein stori ni ydi hon wedi bod! Ac mae'r byd pêl-droed ar bob cyfandir wedi deffro i'n bodolaeth a'n cân!

Meddyliais wedyn am y pysgotwyr distadl rheini ugain canrif yn ôl yn ysgrifennu eu hanes nhw eu hunain am eu profiadau yng nghwmni Iesu o Nasareth! Pennod o hanes – eu hanes nhw eu hunain yn griw bach o gredinwyr, o lygaid-dystion i atgyfodiad rhyfeddol eu Harglwydd. Pennod o hanes di-nod o'i chymharu â hanes clodfawr y byd Rhufeinig ar y pryd. Ond dyma oedd eu stori nhw a dyma oedd eu cân! Hanes yn cael ei ysgrifennu, nid trwy lygaid na than law y gormeswr ond gan y llygaid-dystion a 'welodd ac a deimlodd eu dwylo am air y bywyd'. (1 Ioan 1:1) Hanes annibynnol, answyddogol heb stamp na nod yr ymerawdwr arno – dim ond sêl Arglwydd y Llwoedd a grym ei Ysbryd Glân!

'Mlaen rwan at Gwpan y Byd a dal i fyw y freuddwyd. Ond mae pethau uwch a gwell ar ein cyfer fel Cristnogion hefyd gan fod yr hanes am Iesu yn wir!

**DILYNWCH NI:** @eglwysibroaled

*Aneurin*

**Darlleniad Wythnos Nesaf**

Eseia 35: 1-10 (BCND tud.650 / BCN tud.593)

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 10<sup>fed</sup> • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mercher – 13<sup>eg</sup> • **Adnabod Addoli** yn Ffestri Llansannan am 7.30. (Paned am 7.15.)
- Iau – 14<sup>eg</sup> • **Cyflwyniad i Gristnogaeth** (ar gyfer yr ieuenctid sy'n mynd i'r Coleg ym mis Medi ac sydd wedi dangos diddordeb i gael eu derbyn yn aelodau) yn y Granar, Llansannan am 7.30.
- Gwener – 15<sup>fed</sup> • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf – 17<sup>eg</sup> • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones a bydd Aneurin yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 10<sup>fed</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth – 12<sup>fed</sup> Cinio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 17<sup>eg</sup> Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 10<sup>fed</sup> Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 17<sup>eg</sup> Bydd y Parch. Gwyndaf Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00. Yn ystod yr oedfa, bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn cymryd llais aelodau Eglwys Tanyfron ynglŷn ag uno'r gynulleidfa gyda chynulleidfa Eglwys Unedig Llansannan.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 10<sup>fed</sup> Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 17<sup>eg</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Llansannan

- Sul yma – 10<sup>fed</sup> Bydd Gwion yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10 a bydd cyfarfod byr i flaenoriaid Eglwys Unedig Llansannan yn dilyn yr Ysgol Sul.
- Mercher – 13<sup>eg</sup> Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **erbyn dydd Sul, Gorffennaf 10fed**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 17<sup>eg</sup> Bydd y Parch. Gwyndaf Jones yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Yn ystod yr oedfa, bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn cymryd llais aelodau Eglwys Unedig Llansannan ynglŷn ag uno'r gynulleidfa gyda chynulleidfa Eglwys Tanyfron. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 10<sup>fed</sup> Bydd y Parch. Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan **am 9.30** ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 17<sup>eg</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan ac yn Groes am 10.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 10<sup>fed</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.
- Sul nesaf – 17<sup>eg</sup> Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

### Manylion Cyswllt

- Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com 📞 01745 870618 📞 07775 701102  
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📞 07849 591163  
Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📞 07900 308461  
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

### Eglwysi Bro Aled

**Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.**